
# LLYGAD BARCUD

CYLCHLYTHYR

# CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

RHIF 17 – HAF 2009





Lluniau – Emyr Evans

# GWEILCH AR Y DDYFI!

***HEFYD YN Y RHIFYN HWN –***

- MODRWYO
- Y LÔN GOED
- TEITHIAU'R GYMDEITHAS

***A LLAWER, LLAWER MWY!***

## *ER BUDD ADAR A BYD NATUR*

## Golygyddol

**Yn unol â'i enw, yn enwedig o ran y tywydd gwlyb eleni eto, mae mis Gorffennaf yn teimlo fel bod yr haf bron wedi gorffen. Heblaw am hynny mae arolygon adar y gwanwyn a'r haf wedi eu cwblhau am flwyddyn arall, llawer o flodau'r meysydd a'r cloddiau wedi hadu - a sylwais yn ddiweddar fod glesni ambell goeden eisoes yn dechrau pylu a ffrwythau'n dechrau aeddfedu. Bydd y bys ar y swits yn gynharach bob nos wrth i'r nosweithiau fynd yn hirach o ryw bedwar munud bob nos, a buan iawn y rhagwelaf filiau gwresogi yn syrthio ar y mat unwaith eto! Ydy, rhwng popeth mae'r amser wedi llithro'n gynt nag arfer eleni, ac aeth yn ben set erbyn y diwedd i ffitio'r holl arolygon a gynlluniais i gyfnod mor fyr – wnaeth y tywydd ddim helpu, a minnau wedi gadael popeth tan y munud olaf fel arfer!**

Un rheswm dros y prysurdeb oedd i mi ddechrau ar fenter newydd eleni - profiad newydd i mi oedd dechrau ar fy hyfforddiant fel modrwywr adar (gan ganolbwyntio ar dylluanod yn benodol). A minnau wedi bod allan yn modrwyo fy nythaid olaf o gywion tylluan wen ddiwedd Gorffennaf (pedwar cyw iach!), rhaid i mi ddweud fy mod wedi mwynhau dysgu am yr agwedd newydd hon o adarydda. Cael gweld cywion yn araf ddatblygu a chael dod i gysylltiad agosach a nhw drwy eu mesur, eu pwyso, a rhoi'r fodrwy arian ysgafn yn ofalus, ofalus iawn am y goes dde.

Wrth gwrs, ar ddechrau'r broses roeddwn yn hynod nerfus am wasgu cylch o fetel am goes aderyn diniwed, gan drin y pleiars fel pebaent wedi eu gwneud o wydr a phetruso rhag gwasgu'r fodrwy yn rhy dynn! Am flynyddoedd rhaid i mi gyfaddef i mi fod yn weddol amheus o'r grefft - gan ofni yn fy nghalon fod y gwaith yn niweidio'r adar neu yn achosi straen di angen iddynt. Gadael llonydd iddynt fyddai orau heb os? Ond wyddoch chi be – wrth i mi fynd ati i ddysgu mwy am y grefft, ac wrth ddeall y rhesymau y tu ôl i'r peth, gwelais yn eglur fod y gwaith hwn yn anghenrheidiol, gan gyfrannu cymaint at wybodaeth am, a chadwraeth yr adar sydd mor bwysig i ni.

Wrth ddod yn gyfarwydd a'r broses gydol yr haf, gan deimlo'r metel yn rhoi yn araf ac yn cymryd siap cyfforddus o amglych y goes isaf, gwelais nad oedd y modrwyon yn andwyo'r adar o gwbl. Rhan bwysig o'r hyfforddiant yw dysgu sut i afael yn yr aderyn yn iawn heb achosi niwed na'i wneud yn anghyfforddus, ond roeddwn y falch nad yw'r broses i'w gweld yn poeni'r adar yn ormodol – yn wir, a minnau'n disgwyl ambell i gripiad siom o'r ochr orau oedd gweld mai digon dof oedd y rhan fwyaf o'r cywion, gan orwedd yn dawel a llonydd, a gadael i mi gario 'mlaen a'r gwaith - gan obeithio y byddwn yn gorffen yn fuan ac yn gadael llonydd iddynt siwr o fod! (Felly roedd y tylluanod o leiaf – yn anffodus doedd y cywion cudyll coch a gawsom mewn un nyth ddim mor hawddgar, a bysedd yn gwaedu oedd y stori y noson honno!) Ond ar y cyfan, proses fer oed hi, a chyn pen dim byddai'r cywion oll yn ol yn ddiogel yn nhywyllwch y blychau.

Ie, fel yr ydym wedi dweud yn Llygad Barcud droeon – mae'r broses o fodrwyo adar yn rhoi llawer o wybodaeth newydd i ni am adar a phatrwm eu bywyd. Heb astudio adar mewn dull gwyddonol fyddem ni ddim yn gwybod hanner cymaint ag yr ydym am fywydau'r creaduriaid hynod yma sy'n dod a chymaint o fwynhad i ni. I'r rhai hynny sydd â diddordeb, gwerth fyddai tynnu eich sylw at wefan newydd sy'n edrych ar yr agwedd hynod hon o adarydda – gwefan Gymraeg ei hiaith a ysgrifennir gan ein dau fodrwywr Cymraeg blaenaf – Kelvin Jones o Dremadog a Bryan Jones o Langamarch. Ewch draw i http://modrwyoynnghymru.blogspot.com/ i ddarllen hanesion am fodrwyo barcutiaid, adar môr, adar bychain – yn wir os oes ganddo ddwy goes a phlu mae na siawns y bydd Kelvin a Bryan wedi rhoi modrwy arno!

Am yr ail waith erioed, bydd gan gymdeithas Ted Breeze Jones stondin yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru (Meirion a'r Cyffiniau) eleni. Byddwn yn rhannu pabell â nifer o gymdeithasau gwirfoddol eraill dan ochl Mantell Gwynedd – felly os byddwch yng nghyffiniau'r Bala galwch heibio i'n gweld! Hwyl am y tro!

## LLYGAD BARCUD - Cylchlythyr Cymdeithas Ted Breeze Jones

**Rhif 17 – Haf 2009**

**Golygyddion –**
Rhodri Dafydd (CCGC) a Twm Elias (PTyB)

**Cyfranwyr –**
Dafydd Guto, Huw Dafydd Jones, Tom Jones, Twm Elias, Rhodri Dafydd



Pob llun – hawlfraint yr awdur oni nodir yn wahanol.



**CYMDEITHAS TED BREEZE JONES**
**Llywydd Anrhydeddus –**
Iolo Williams

**Cadeirydd y Gymdeithas a Golygydd Ymgynghorol *Llygad Barcud*–**
Twm Elias, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd LL41 3YU, (01766) 772 610

**Trysorydd –**
Brian Paul, Ty Fry, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6RT, (01766) 770 500

**Ysgrifennydd a Golygydd *Llygad Barcud*–**
Rhodri Dafydd, 2 Ty'n Ddôl, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7TN, (01678) 540 545

**Ysgrifennydd Aelodaeth –**
Anwen Breeze Jones, Tan y Deri, Bryn Eithin, Llandecwyn, Gwynedd LL47 6YF, (01766) 770 833


Am fwy o wybodaeth a ffurflen ymaelodi â'r Gymdeithas cysylltwch âg Anwen Breeze Jones.

**Croesawir llythyrau, cwestiynau, newyddion ac ati ar gyfer y rhifyn nesaf.**
**Anfoner unrhyw ddeunydd at yr Ysgrifennydd cyn diwedd Hydref os gwelwch yn dda**

## Manteision ymaelodi â Chymdeithas Ted Breeze Jones.

Bob blwyddyn bydd aelodau'r Gymdeithas yn derbyn tri rhifyn o'r cylchlythyr ***Llygad Barcud***. Cyn hir, byddwch fel aelodau yn derbyn cerdyn aelodaeth fydd yn eich galluogi i fynychu sgyrsiau a theithiau'r gymdeithas yn ddi-dâl. Ond un o fanteision mawr aelodaeth o'r Gymdeithas yw y bydd y cerdyn hwn yn caniatáu i chi gael gostyngiadau sylweddol o'r siopau isod –

- **Cotswold Outdoor**, Betws y Coed – 15%
- **Gelert**, Port – 15% ar nwyddau Gelert, 10% ar nwyddau eraill
- **Siop lyfrau Browsers**, Port – 10%
- **Fifth Element**, Port – 10%
- **Bear Print**, Port – 10%
- **Nigel Hughes**, Port – 10% (ar wahan i gamerau digidol – prisiau cystadleuol eisoes!)
- **Arwyn Edwards**, Penrhyndeudraeth – 10% ar wydrau a nwyddau eraill

# Casglu Arian Gwahanol Wledydd – chwilio am adar

**gan Dafydd Guto, Llanrug**

**Y tro nesaf yr ewch ar grwydr i wledydd eraill y mae'n werth treulio amser, yn enwedig ar ôl dychwelyd adref, i archwilio'r arian mân, neu hydynoed yr arian papur sydd wedi eu cadw yn eich pocedi ne'ch pwrs neu waled. Hynny yw, yr hyn sydd weddill o'ch gwyliau ac y bu ichi fethu eu gwario dramor.**

Mae'n siwr y byddai'n bosib mynd a'r arian papur i Fanc neu Swyddfa'r Post i'w cyfnewid am arian cyfwerth at eich dibenion beunyddiol yma yng Nhymru – mae costau byw yn ddigon uchel fel y mae hi. Ond arhoswch enyd cyn gweithredu – onid yw'r arian 'ma yn ddiddorol? Ac os oes darnau eraill o wyliau eraill, a rhai yn llechu o gwmpas y ty ers blynyddoedd yng ngwaelod rhyw botyn neu yn y drôr nialwch, onid oes sail i gasgliad yma? Felly, beth am gychwyn albwm arian, fydd yn ffordd dda iawn ichi drysori eich atgofion gwyliau a hefyd i ddysgu am hanes, diwylliant a daearyddiaeth y gwahanol wledydd?

Ond gair o gyngor, os ydych am fynd ati o ddifri a chreu casgliad go fawr, mae'r maes yn un enfawr. Syniad da fyddai dilyn rhyw thema neu'i gilydd ac, yn achos aelodau Cymdeithas Ted, efallai y byddai dilyn trywydd adar yn fwy addas na dim arall. Isod ceir enghreifftiau o'r mathau o ddeunyddiau, hen a newydd, sydd ar gael:

1.) **Arian gleision:**

Unol Daleithiau'r America



Fel y gallwch ddisgwyl mae'r eryr yn bwysig i'r Americanwyr fel arwyddlun cenedlaethol. Dyma ½ doler 1967, ¼ doler 1853, 1917 a 1977 ac un sentan arian 1858.

Amrywiol



Daw y rhain o Indonesia, Awstria, Ffrainc, Sbaen, yr Eidal (dod adre fel 'siwfiniar o'r rhyfel wnaeth hon) a Hwngari. Defnyddid y darnau Ewropeaidd hyn cyn dyddiau'r Ewro.


2.) Arian papur:




$100 Doler o Canada. Ydach chi'n nabod y deryn?




Cefn ein papur £10 ni, Darwin a deryn y si





Creyrod yn arddangos ar gefn y papur 3 rubli o Latfia




Mae yna bioden yn Bangladesh hefyd




Math o golomen o Indonesia




Y 'quetzal' yw aderyn cenedlaethol Gwatemala a'r enw hefyd ar unedau ariannol y wlad.

# Gwydir yn y gwyll

Rhodri Dafydd

**Mynd allan i chwilio am y troellwr mawr oedd fy mwriad unwaith eto eleni. Hyd yma, aflwyddiannus fu bob ymgais gennyf i weld y rhith hwn, ond wedi cael deall fod safle yng ngoedwig Gwydir yn un o'r llecynnau gorau yng Nghymru i'w weld, dyma anelu at y llecyn dan sylw ar noswaith lonydd, gynnes ddechrau mis Gorffennaf.**

Wedi setlo ar leoliad â golygfa wych i bob cyfeiriad, dyma geisio swatio yn llonydd. Ond tasg anodd oedd hi a ninnau o fewn cyrraedd llyn bychan a chors Bodgynydd, oblegid os oes hafan i wybed mân (neu 'biwiaid') wel dyma hi i chi. Lwc fod gen i rywfaint ar ôl o'r pryfladdwr brynais i ym Mhatagonia – stwff da, effeithiol a chryf ond fyddai, heb os, yn anghyfreithlon i'w werthu yn y wlad hon oherwydd ei gynhwysion amheus... ond diolch byth roedd y label mewn Sbaeneg felly bendith oedd fy anwybodaeth! Syrthio'n ôl ar yr hen dechneg o gael smôc wnaeth fy nghyfaill Gareth – ac roedd hynny'n gweithio lawn cystal a'r coctêl cemegolion oedd yn llosgi 'nghroen innau gan gadw'r cythreuliaid bychain draw – am ysbaid beth bynnag!

Aros... ac aros... nes bod y golau'n pylu yn araf, araf iawn, bron heb i ni sylwi. Deg o'r gloch.

Deg munud wedi deg.

Ugain munud wedi deg.

'Mae nhw i fod allan erbyn hyn?!'

Hanner awr wedi deg...

...wel dyma newid ein lle a cherdded i ffwrdd yn araf. Yn ôl at y ffordd... a dyna ni! A minnau bron a rhoi'r ffidil yn y tô (os buaswn yn dweud y gwir, roedd y ffidil yn ei chas ers hanner awr) dyna'r swn annaearol y bum yn aros amdano cyhyd - *RRRRrrrrRRRR*. Ac nid un, ond dau aderyn wrthi! Chefais i mo'u gweld y tro hwn chwaith, ond ar ôl anobeithio roedd hyd yn oed cael clywed sain barhaus yr adar yn ddigon i'm boddhau y noson hon!

Hwtian tylluan frech o'r coed cyfagos, a dim smic arall i'w glywed yn unlle – na char, nac awyren, na chi yn cyfarth. Tawelwch cyfareddol.

Ac yna ias i lawr yr asgwrn cefn – swn wylofus, treiddgar o gyrion y gors. Dyna gyffylog yn rhodio. Anodd disgrifio hwn – ond dychmygwch gyfuniad o ysbryd drwg a hofrennydd Chinook anferth yn y pellter byddech yn reit agos ati...neu, efallai yn o bell ohoni a dweud y gwir (ond fe ddywedais ei fod yn swn anodd i'w ddisgrifio yndo?!)

Ys dywed y Collins bird guide –

'*Roding male repeatedly gives 3-4 grunted or growling notes followed by high pitched, short explosive sound, 'wart wart wart-wart **pissp!***'

Hmmm – ie, wel dyna chi!

A dyna brofi ei bod yn werth troedio allan gyda nosau hwyr yr haf, does wybod beth a glywch!

# Taith Cwmystradllyn, Dydd Sul Mai $24^{ain}$, 2009.

Tom Jones, Golan


**Daeth pedwar aelod ynghyd am 10.00yb ar y bore Sul brafiaf a gafwyd ym mis Mai eleni. Tipyn yn wahanol i'r llynedd pan oedd y gwynt yn chwythu ac yn bwgwth glaw trwy'r dydd.**

Cychwynwyd ger y llyn ac aethom ar hyd yr hen dramffordd i gyfeiriad Chwarel y Gorseddau ym mhen ucha'r cwm. Ond cyn inni gymeryd mwy na dau neu dri cam dyma dderyn bychan yn tynnu ein sylw tros y wal, sef bras y cyrs hefo'i ben du. Ac wrth edrych arno fo fe ddaeth aderyn dipyn mwy i'r golwg a glanio ar y goeden gerllaw a nifer o rai llai i'w ganlyn. Be feddyliech chi oedd yno ond y gôg a phedwar neu bump o deloriaid yr helyg yn osgordd bryderus iddi.

Dyma ddechra da i'r daith ac wrth inni fynd yn ein blaenau dyma be a welwyd wedyn cyn inni gyrraedd y chwarel: bili-dowcar a gwylanod penwaig ar y llyn, gwennol, aderyn du, ji-binc, sigl-di-gwt, bronfraith, adar y tô, clochdar y cerrig, gwybedog brith ger adfeilion y Plas uwch y llyn, dryw bach a'r pinc y mynydd cyntaf i mi ei weld ers blynyddoedd. Wrth gwrs, ar ben hyn, lle fedrwch chi fynd heddiw heb weld pioden a brân dyddyn?

Fe gyrhaeddom y chwarel toc a dyma aros i wrando am ychydig... ond ni ddaeth y galwad yr oeddwn yn ei ddisgwyl. Felly i mewn a ni i'r chwarel ei hyn ac eistedd yn agos i'r agoriad. A wir i chi, chawsom ni 'mo'n siomi oherwydd ymhen ychydig funudau dyma alwad y frân goesgoch yn diasbedain dros y lle ac fei gwelsom yn mynd i'w nyth mewn agen yn y graig o'n blaenau. Wedyn roedd 'na swn – ia, wrth i'r cywion gael eu bwydo! Roedd hwn yn le newydd i'r frân goesgoch nythu.

Wrth wylio y rhain be welais drwy gornel fy llygaid, yn gadael swp o goed bychain, ond yr un yr oeddwn wedi gobeithio ei chlywed: ia, mwyalchen y mynydd. Gwelwyd y ceiliog a'r iâr yn mynd a dod o'u nyth, eto yn bwydo'r cywion.



Mwyalchen y mynydd www.gybc.org.uk/

Tra yn eistedd yno yn cael tamad i'w fwyta gwelwyd cydyll coch, dryw bach a chigfran, ac erbyn hyn roeddem wedi gweld sawl tinwen y garn. Cododd bwncath dros y mynydd i'n golwg, gan hofran a gleidio yn ddi drafferth am ychydig, cyn mynd yn ôl wedyn o'n golwg y tu ôl i'r mynydd.

Ond daeth rhyw gysgod tros y waen fel 'tae, a beth oedd yno ond un o'r barcutiaid mawr yma. Na, nid y 'deryn gwaetha'r modd ond un â dyn yn hongian odditano. Diflanodd yntau yn y man dros y gorwel am y Wyddfa.

Cerdded i fyny wedyn drwy Cwm Cud, ac ar y ffordd i fyny daeth llwyd y gwrych i'r golwg a hefyd tresglen. Golyfeydd godidog o'r bwlch cyn troi yn ôl ar hyd yr un llwybr at y ceir, ac wedi cyraedd fe hedfanodd dau nico trosodd. Dyna ichi saith ar hugain o wahanol adar. Be gaech chi well mewn cwmni dedwydd ar ddiwrnod mor braf?!

# Ynys Lawd, Harbwr Caergybi a Chemlyn

Sadwrn, Mehefin 27ain 2009

Huw Dafydd Jones



**Blwyddyn namyn diwrnod wedi'r daith drefnwyd gan y Gymdeithas i Ynys Lawd y llynedd dyma ddychwelyd, y tro hwn dan arweiniad Rhodri Dafydd. Unwaith eto bu cryn edrych ymlaen at ymweld â'r cloglwyni hynod yn ystod tymor nythu adar y môr. Daeth rhyw ddwsin o selogion y Gymdeithas at ei gilydd ym maes parcio'r RSPB, gyda'r bwriad o gerdded drwy'r rhostir uwchlaw'r clogwyni i gyfeiriad twr Elin, gwylfan yr RSPB. Siom fawr oedd gweld y niwl trwchus ar y bore cynnes hwn, gan na fyddai'n rhwydd gweld fawr ddim. Ni fyddai unrhyw un wedi credu ar y cychwyn y byddai dros hanner cant o wahanol fathau o adar wedi eu gweld erbyn diwedd y ddydd.**

Er yr anobeithio ar y cychwyn, cyrhaeddwyd y twr gyda nifer dda o wahanol rywogaethau wedi eu cofnodi. Adar cyffredin megis y robin, y ji binc, a'r fwyalchen, ac adar bychan y rhostir, sef yr ehedydd, cor-ehedydd y waun, a chlochdar y cerrig. Ymysg y rhai mwy anghyffredin oedd llwydfron a rhyw ddwsin o linosiaid. Clywyd crawc y frân goesgoch cyn gweld wyth ohonynt yn hedfan drwy'r niwl ac yn glanio ar lethr nepell oddi wrthym ar y clogwyn. Drwy'r niwl hefyd cafodd un neu ddau o'r cwmni gip sydyn ar hebog tramor.

Cyrraedd twr Elin a chan nad oedd modd gweld y clogwyni, dim ond clywed swn yr adar ac arogli'r giwano, dyma benderfynu ymweld â'r sgriniau teledu y tu mewn i'r twr. Syndod oedd gweld y lluniau'n hollol glir! Yn ôl allan o'r twr ac fe gododd y niwl. 'Roedd yna fynd a dwad cyson yn ôl ac ymlaen rhwng y silffoedd creigiog a'r môr. Allan ar y môr 'roedd rafftiau mawr o'r adar hyn yn pysgota, ac yn eu mysg ambell i bâl. Ymysg y gwylanod yn hedfan oddi amgylch, glanio a nythu, yr oedd gwylanod y penwaig, gwylanod penddu, gwylanod cefnddu –y leiaf yn y mwyafrif ac ambell un o'r math mwyaf, gwylanod coesddu ac adar drycin y graig. Cael cinio ger y twr yn yr aroglau hyfryd, ac yna disgyn i lawr grisiau'r goleudy i gael gwell golwg ar dyllau nythu'r palod.

Dringo'n ôl i ben y grisiau, a'r arweinydd yn dweud ei fod ei fod yn awyddus i fynd â ni yn gyntaf i'r hen harbwr yng Nghaergybi, ac yna ymlaen i Gemlyn.

Mae Gwylogod duon wedi nythu mewn tyllau yn waliau'r harbwr ers nifer o flynyddoedd bellach, ac oherwydd hyn mae modd cael golwg dda iawn arnynt, yn y tyllau ac allan ar y dwr yn yr harbwr a thu hwnt. Yn ôl I'r ceir, ac, wedi teithio ar hyd ffyrdd cul gogledd Môn am ryw chydig, dod yn y man I Gemlyn (gyda cheir wedi cyrraedd yma o bob cyfeiriad ar ôl colli'r ffordd!

'Roedd gwylan Môr y Canoldir wedi ei gweld yng Nghemlyn, ac wedi peth chwilio drwy'r gwylanod penddu daethpwyd o hyd iddi – yn taflu ei phwysau ymysg y gwylanod llai, a mwy cyffredin!

Cemlyn, wrth gwrs, yw safle un o'r colonïau mwyaf o fôr-wenoliaid yng nghymru, a gwelwyd yma rai cannoedd o fôr-wenoliaid cyffredin, môr-wenoliaid y Gogledd a môr-wenoliaid pigddu.

Yng Nghemlyn, yn ogystal, gwelwyd cwtiar ar ei nyth, a phibydd y mawn yn ei liwiau magu. Yn sicr bu'n werth troedio ar hyd y gro i weld y fath ryfeddodau.

Diolch i Rhodri am arwain a threfnu'r diwrnod.

**Pengwin, 1, 2, 3...**

Ceir y nythfa fwya o bengwiniaid yn y byd ar Ynys Zavodovski, sy'n un o'r Ynysoedd Sandwich. Mae tua dwy filiwn o bengwiniaid barfog (chinstrap penguin, *Pygoscelis antarctica*) yn nythu yno. Mae'n cymeryd cryn dipyn o amser i'w cyfri nhw bob blwyddyn!

## Y 'Deryn Baw Buwch

Yn byw yng nghoedwigoedd Colombia, mae'r hoatsin (*Opisthocomus hoatzin*) yn un o adar rhyfedda'r byd. Doedd tacsonomegwyr ddim yn siwr i ba deulu y dylsid ei ddosbarthu o a thros y blynyddoedd mae o wedi cael ei roi ymysg y cogau, y twracoaid a hydnoed y ffesantod – mae ffesant ddrewllyd yn un o'i enwau lleol o. Erbyn hyn mae mwen grwp ar ben ei hun, yr hoatsiniaid, ac ef yw'r unig aelod o'r grwp hwnnw.



Un o'r petha rhyfeddol am yr hoatsin ydi ei fod o'n drewi fel baw buwch – dyna pam ei fod yn y *Guinness Book of Records 2009*, fel y deryn mwya drewllyd yn y byd. Mae hynny'n codi o'i ddull unigryw o, ym myd yr adar, o dreulio ei fwyd. Mae o'n b'yta dail gwyrdd ac yn eu treulio nhw drwy eu heplesu nhw gyda chymorth bacteria mewn math o stumog arbennig, yn union fel y gwna buwch yn ei choden fawr neu *rumen*.

## Rhai lluniau o daith Ynys Lawd, Harbwr Caergybi a Chemlyn

Lluniau – Huw Dafydd Jones




Aros eu tro i fynd i mewn i'r twll



Well i mi feddwl am fynd i 'sgota eto!



Gwylogod duon yn hen harbwr Caergybi



Twll nythu yn wal yr harbwr



Aelodau'r Gymdeithas ar y lanfa.



Cwtiar ar ei nyth yng Nghemlyn



Gwylan Môr y Canoldir.
Cymharer â'r wylan benddu



Nythaid o frain coesgoch ger twr Elin



Llinos ar yr eithin. Nid yw llun du a gwyn yn gwneud cyfiawnder â'r lliwiau bendigedig.



Rhesi o wylogod a'u cywion.



Pig y llurs yn dangos y trwch a'r marciau gwyn.Tynnwyd y llun o sgrîn yr RSPB.



Clown y clogwyni



Tamaid o ginio ger y twr



Aderyn drycin y graig ar ei nyth



Gareth a Brian yn edrych am y palod

# Taith y Lôn Goed, Ebrill 25ain, 2009

dan arweiniad Twm ac Edward Elias

**Ers bron i flwyddyn bellach datbygodd perthynas agos rhwng Cymdeithas Ted a Chynllun y Lôn Goed. Cynllun cymunedol ydi hwn sy'n ceisio dehongli a hyrwyddo'r defnydd o'r Lôn Goed gan y gymuned leol. Cafodd ei noddi'n rhannol gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r HLF (da gweld nad ydi bob diawl o bob dim yn cael ei sugno i ariannu'r gemau Olympaidd yn Llundain yn 2012).**

Eisoes bu T. Elias yn helpu i arwain cyfres o bedair taith dymhorol i'r ddwy ysgol leol: Chwilog a Llanystumdwy a bu Rhodri Dafydd yn ymweld â'r ddwy ysgol ym mis Mai i son am dylluanod – â'r plant wrth eu boddau yn agor peleni i chwilio am esgyrn y llygod ayyb fu'n brydau bwyd i'r adar.



Y Lôn Goed yn y gaeaf

Roedd ein taith ni ar y 25ain o Ebrill yn rhan o'r cynllun ac yn agored i bawb , efo croeso arbennig i bobl a phlant y fro.

Dyma gychwyn yn y pen deheuol lle roedd lle i barcio ryw chydig o geir – wedi troi i mewn i'r Lôn Goed oddiar y ffordd newydd ger Golchdy Afonwen. Da oedd gweld criw o bob oed wedi troi allan a bod rhagolygon erchyll y Swyddfa Dywydd am y diwrnod yn anghywir unwaith eto. Do, fe gawsom dywydd eitha da, ychydig yn wyntog efallai, ond fe arhosodd y cotiau glaw yn y bagiau bron drwy'r dydd.

Datblygwyd y Lôn Goed yn wreiddiol wedi i Syr Thomas Mostyn (perchennog Stad Plas Hen) benodi Sais o'r enw John Maughan yn 1817 yn oruchwyliwr i'r stad. Roedd safon yr amaethu o gwmpas y stad yn wael iawn – y tir yn dlawd ac yn drybeilig o wlyb. Roedd yn anodd iawn cyrraedd y ffermdai gan fod y llwybrau yn gwbl anaddas. Yn fuan iawn fe aeth John Maughan ati i gynllunio lôn addas i gysylltu'r ffermydd ar y stad. O fewn dim cynlluniodd lôn bedair milltir a hanner o hyd oedd yn ymestyn o gwr Mynydd Cennin yn nghanol cwmwd Eifionydd hyd at gwr Melin y Ffridd Lwyd, sef safle Hen Olchdy Afonwen heddiw.

Nid yn unig y byddai'r ffordd yn cysylltu ffermydd y stad ond byddai'n ddull effeithiol iawn i sychu'r tir gan fod ffosydd dyfnion o ddeutu'r lôn newydd. Yn ogystal byddai'r lôn yn cynnig ffordd ardderchog o gario calch i'r ffermydd – calch fyddai'n cael ei gludo ar longau i'r traeth ger aber yr Afon Wen.

Ac felly y bu – fe wireddwyd cynllun arloesol John Maughan pan adeiladwyd y lôn newydd a phlannwyd dros fil o goed yr holl ffordd o bopty iddi. Pwrpas plannu'r coed, mae'n debyg, oedd i roi cysgod; i ddraenio'r tir corsiog drwy sugno dŷr drwy'r gwraidd; atal erydu drwy glymu ymylon y ffordd at ei gilydd a hefyd i ddarparu rhodfa goediog fyddai'n harddu'r fro. Ymhen amser byddai'r coed yn werthfawr yn fasnachol hefyd a phob hyn a hyn ar ei hyd ceir planhigfeydd o ryw ½ – 1 acer at ddefnydd saeri'r stad rhyw ddydd.

Yma a saif hyd heddiw yn un o ryfeddodau Cymru gan oroesi meistri'r plas oherwydd fe orfodwyd Syr Thomas Mostyn i werthu'r stad yn 1844 oherwydd trafferthion ariannol.

Canlyniad hyn oll yw fod y Lôn Goed yn braf iawn i'w cherdded ac, i'n dibenion ni, yn un strimyn hir o goedwig (ffawydd a derw'n bennaf ac ychydig o ynn) sy'n dda iawn i adar. Yr adeg yma o'r flwyddyn, hefyd, braf iawn oedd cael gweld blodau'r gwanwyn – bwtsiars y gôg, llygad Ebrill, blodyn y gwynt a suran y coed ayyb.

Buan iawn y dechreuodd y rhestr adar ymestyn – adar brodorol cyffredin megis y llinos werdd, llwyd y gwrych, nico, dryw, ji-binc, y tri math o ditw, robin, adar duon, y ddwy fath o fronfraith ac, fel yr oeddem yn cyrraedd at y ffordd fawr sy'n croesi rhwng Chwilog a Dinas, branas o ydfrain (neu frain pigwen fel y byddai Ted Breeze yn eu galw) yn crawcian yn gymdeithasol ymysg ei gilydd ar eu nythod. Wrth lwc wnaethon nhw ddim llanast ar ben neb wrth inni basio odditanynt. Roedd rhai o ymwelwyr yr haf wedi cyrraedd hefyd – siff-saff, telor helyg a thelor penddu.

Croesi'r ffordd fawr ac ymlaen at Gapel Engedi. Difyr bod y Capel wedi ei godi yn 1872 o gerrig oedd yn weddillion Tafarn yr Hen Ferched, am mai dwy hen ferch a'i cadwai. Y llwyr ymwrthodwyr a orfu y tro hwnnw mae'n amlwg. Pan gaeodd yn 1982, ar ôl canu'r emyn olaf, arweiniodd y llywydd y gynnulleidfa allan o'r Capel yn cario y Beibl.

Ymlaen a ni heibio Betws Fawr lle ganed Robert ap Gwilym Ddu yn 1766 (awdur yr emyn "Mae'r gwaed a redodd ar y groes..") ac ymlaen heibio olion Capel Galltgoed a Thalhenbont, neu Plas Hen. Yma yn y Plas yr oedd Syr Thomas Mostyn yn byw, a thra bod ei was, John Maughan, yn adeiladu un o ryfeddodau Cymru aeth yr hwch drwy'r siop a bu'n rhaid i Syr Thomas werthu'r cyfan yn 1844. Ai gwir yw'r gair 'Mae mistar ar Mistar Mostyn'!?

Erbyn cyrraedd 'Crossing' Rhosgyll lle croesai '..y trên i Afonwen' yng nghân Bryn Fôn, roeddem wedi ychwanegu at ein rhestr: bwncath, delor y cnau, dringwr bach a dwy fath o gnocell – y werdd a'r fraith fwyaf.

Draw heibio fferm Gaerwen, gan nodi sgrech y coed, ffesant, wenoliaid, cigfran, sguthanod a mwy o'r adar cyffredin a welsom eisoes cyn cyrraedd diwedd y daith ar droed yr allt dan Hendre Cennin. Ar ein ffordd yn ôl, ger Gwinllan y Gaerwen, y cawsom uchafbwynt adaryddol y daith, sef clywed o leia dau nyddwr bach yn y gors. Roedd eu ...*RRRRrrrrRRRR*... nodweddiadol yn cynyddu, gostegu a chynyddu wrth i'r deryn bach swil ganu gan droi ei ben tuag atom, i ffwrdd ac yn ôl atom drachefn.

Do cafwyd taith bleserus iawn ac ar ei diwedd braf iawn i rai oedd cael mynd am hufen iâ fanila i Cadwaladers, Cricieth i orffen y diwrnod yn iawn.

**Adar o bwys**

Os mai'r estrys ydi'r aderyn trymaf yn y byd – gall y math o ogledd Affrica (*Sturthio camelus camelus*) bwyso hyd at 345 pwys (156.5 kg) – yr aderyn trymaf yn y byd sy'n gallu hedfan yw ceiliog-y-waun Kori (Kory bustard, *Ardeotis Kori*) o dde a dwyrain Affrica. Gall bwyso hyd at 40 pwys (18.8 kg) a phan mae am godi i hedfan bydd yn gorfod rhedeg am bellter fel awyren – dyna pam mai ar y gweirdiroedd agored y cewch chi o.

# Y bodaod nad oeddynt yn bodoli

Rhodri Dafydd

**Torcalonnus. Dyna'r unig air i ddisgrifio fy ymweliad cyntaf â nyth boda tinwen i fodrwyo cywion. Roedd hwn i fod yn brofiad bythgofiadwy. Ac yn wir mi oedd o – ond am y rheswm anghywir.**

A minnau ar fy mlwyddyn gyntaf dan hyfforddiant i fodwyo tylluanod gwynion, teimlai fy hyfforddwyr, Dave Anning a Kelvin Jones mai da fyddai imi gael profiad o fodrwyo adar eraill hefyd. Un o'r rhain oedd y boda tinwen, ac o wybod fod parau yn nythu'n gymharol leol ar Safleoedd o Ddiddordeb Arbennig y Migneint-Arenig-Dduallt a'r Rhinogydd, roeddwn yn edrych ymlaen yn eiddgar at y cyfle i ymweld â'm nyth cyntaf.

Am fod yr adar yn cael eu gwarchod dan y gyfraith, rhaid cael trwydded arbennig i fynd yn agos at nyth boda tinwen, a thrwydded arall i allu eu dal a'u modrwyo. Gyda'r rhain mewn llaw, a'r nythod wedi eu canfod yn ystod y tymor magu gan Gareth Thomas, gweithwyr i'r RSPB yn yr ardal, roeddwn yn edrych ymlaen at yr adeg y byddai'r cywion yn ddigon hen i'w modrwyo.

Felly dyma aros, a cheisio dewis diwrnod pan fyddai'r tywydd yn addas i' gwaith (nid ydym am i'r adar oeri a gwlychu'n ormodol wrth eu hel drwy'r grug ar ddiwrnod gwlyb). Bu hyn yn anodd ym mis Gorffennaf eleni, a'r haf chwilboeth a addawyd i ni gan ddarlledwyr y Swyddfa Dywydd heb ymddangos, eto!

Ond un gyda'r nos dyma fanteisio ar fwlch rhwng y ffryntiau llaith o'r IweryddAtlantig oedd yn dilyn ei gilydd ribidi-res o'r de orllewin gan ddod a thon ar ôl ton o gaodydd trymion, dyma anelu am safle nythu yn ucheldir Meirionnydd. Gyrru'r car i fyny ar hyd ffyrdd coedwig am filltiroedd, ei adael mewn llecyn diarffordd a cherdded drwy rug oedd at ein pen gliniau, dros greigiau geirwon ac i fan uchel ble gellid roedd y tirlun yn agor allan o'n blaenau. Aros yma am ennyd i weld a fyddai'r oedolion yn dod i'r golwg... ond na, doedd dim golwg ohonynt. Allan yn hela efallai. Neu yn eistedd ar y nyth. Dyna fentro'n agosach felly...

Cerdded yn araf a phwyllog. Yn nes. Codi'r breichian i wneud i ni edrych yn fwy – pe credai'r cywion y gallant ddianc byddant yn ei heglu hi – ond o weld bygythiad mawr byddent yn fwy tebygol o swatio yn eu hunfan. Yn nes eto. Fy nghalon yn fy gwddf a'm nerfau ar binnau, yn barod i neidio a dal y cywion pe byddent yn fywiog. Yn nes eto....rhaid fod y nyth o'n blaenau...ond ble roedd yr oedolion? Pam nad oeddent wedi codi i'n herlid? Grug tal, aeddfed – man perffaith iddynt nythu...

Ac yna, o'n blaenau - roedd olion nyth yn y ddaear. Ond dim golwg o'r adar. Olion baw, a phlu. Ac yna, ryw fetr i ffwrdd – o na. Corff. Ac arogl marwolaeth yn llenwi'r awyr.

O fod yn llawn cyffro, plymiodd fy ysbryd i befreddion fy stumog. Roedd y cywion druan wedi eu lladd.

Yn ôl Dave, roedd y ffordd y cafodd y plu eu rhwygo yn dangos yn eglur mai llwynog oedd yn gyfrifol am y lladdfa. A dyna ni nyth arall wedi methu, mewn blwyddyn na fu yn un ryw lwyddianus iawn i adar ysglyfaethus. Ie, torcalonnus. A be ddigwyddodd i'r oedolion tybed? A fyddant yn eu holau y flwyddyn nesaf i geisio eto? Amser a ddengys.

Tristwch llethol a deimlais yr ennyd honno ar ochr y bryn, ac rwy'n dal i deimlo hynny hydnoed rwan wrth feddwl am y peth. Ydi, mae natur yn medru bod yn greulon.

Os daeth un peth allan o hyn – yna caledu fy agwedd tuag at greaduriaid megis y llwynog, a'r frân hefyd oedd hwnnw. Gyda'r gornchwiglen, y gylfinir ac yn wir, fel ag a welais – unrhyw aderyn sy'n nythu ar lawr, dan fygythiad – rwy'n sicr fod angen mwy o reoli rhywogaethau pla er mwyn cadw rhyw fath o gydbwysedd ym myd natur.

Caiff llwynogod loches yn y fforestydd trwchus, a lluosoga eu niferoedd i'r fath raddau fel nad oes gobaith i adar sy'n nythu ar lawr. Mor anheg yw'r fantais bellach.

Mi wn nad oes gan yr un creadur fwy o hawl i fyw nag un arall – ond petai gen i wn, a taswn i wedi gweld llwynog y noson honno...



Lladdfa llwynog rhwng llwyni grug....

# I'r Alban am yr eildro

Rhodri Dafydd

**Bron flwyddyn union ers i mi deithio ar y trên i bellafoedd yr Alban (Gweler Llygad Barcud (rhif 14, Haf 2008) yr oeddwn ar fy ffordd yn ôl. Nid yn y 'sleeper' y tro hwn ond dan fy mhwysau fy hun (neu yn hytrach, dan bwysau fy nhroed dde!). I fyny'r M6 hirfaith a'r A9 (lawn camerau!) – a'r targed? Ardal Ystrad Spey a phentref bychan Nethy Bridge.**

Dechrau mis Mai oedd hi, a thri aderyn ar fy rhestr i'w gweld – y titw copog, grugiar y coed (Capercaille) a hutan y mynydd.
Mae'r titw copog yn aderyn bychan du a gwyn gan fyaf gyda chrib fechan ar gefn ei ben. Ar begwn arall y byd adaryddol o ran maint mae grugiar y coed yn glamp o aderyn – maint twrci ond er ei faint yn anodd iawn ei weld oherwydd mor brin ac mor ofnus o bobl ydyw.
A hutan y mynydd – wel dyma aderyn y'i gwelir yng Nghymru o dro i dro pan fydd yn pasio drwodd ym mis Mai neu ar ei ffodd yn ôl ddiwedd y tymor magu – aderyn yr ucheldiroedd uchaf, ac yma, yn yr Alban mae un o'r llefydd y bydd yn magu.
I'r rhai sy'n adnabod yr Alban byddwch yn gwybod fy mod yn mynd i'r lle gorau posib i'w gweld!

Y bore piau hi ebe nhw, a dyna godi cyn cwn Caer(edin) ac anelu am Tulloch moor – ardal o rostir gweddol isel a choedwig o binwydd yr Alban a choed bedw yn ei hamgylchynu. Wrth gyrraedd cyn toriad gwawr gwelwyd yr haul yn codi a thaflu ei belydrau cynnes dros y wlad. Wedi cerdded ymhellach – dyna swn prin ond cyfarwydd y grugiar ddu yn taro'r glust. Ond yn wahanol i'r ychydig adar yr arferwn eu gweld yma yng Nghymru, roedd yma 'lek' mawr a llawer i geiliog yn ymffrostio yn ei ddoniau cantorol! Wrth wylio'r adar byddai ceirw yn ymddangos, llinosiaid yn hedfan uwchben. Dyna gychwyn da i'r bore!

Ymlaen wedyn i warchodfa'r RSPB yn Loch Garten – cartref y gweilch y pysgod 'gwreiddiol' – ond hefyd yn loches i'r grugiar y coed prin. Mor brin ydyw hwn bellach fel eu bod yn ceisio darbwyllo adarwyr rhag mynd i chwilio amdano eu hunain ac amharu'n ormodol arnynt, ond yn hytrach yn annog pobl i ddod i'r mannau gwylio 'swyddogol'. Hap a damwain llwyr yw eu gweld wrth gwrs, ond yn ffodus ddigon roedd ceiliog yn eistedd mewn cangen nepell o'r cwt gwylio, a gallaf ddweud o'r diwedd i mi weld grugiar y coed yn ei gynefin!

Treuliais y dydd wedyn yn crwydro llwybrau'r coedwigoedd pîn hynafol, gyda llynnoedd godidog yn dod i'r golwg bob hyn a hyn, a mynyddoedd mawreddog y Cairngorm yn gefndir i'r cyfan. Roeddwn yn awchu i fynd i fyny yn y byd, a dyna oeddwn am ei wneud y diwrnod canlynol!

Drannoeth – penderfyniad mawr – cerdded ynteu gymryd y 'funicular' enwog a dadleuol i ben Cairngorm... galwch fi'n ddiog os mynnwch ond y trên enillodd! Ffordd arbennig i roi cyfle i bobl na fyddai fel arfer yn mynd i'r fath amgylchedd i gyrraedd y copaon ebe rhai, datblygiad anaddas mewn

lleoliad naturiol o'r fath yn ôl eraill. Ac efallai yn wir fy mod yn tueddu i gytuno a'r ail garfan. Ond, wedi dweud hynny, gan fod cwmni gennyf (fy nghariad, ei chwaer a'i gwr a'r ddau o blant bach gyda nhw), roedd yn esgus digonol i gymryd yr opsiwn hawdd!

Heb os roedd y datblygwyr wedi ceisio ei gwneud yn amlwg mor fregus ac arbennig yw 'twndra' ucheldiroedd y Cairngorm - gydag arddangosfeydd teilwng yn son am ecoleg yr ardal, ac nid oedd modd cael mynediad i'r mynydd dim ond i blatfformau gwylio y tu allan. Profiad go ryfedd oedd hwn a dweud y gwir - bod yno, yn y mynyddoedd ond eto mewn awyrgylch gyfangwbl reoledig a 'saff' a chaffi cyfforddus yn edrych allan dros un o dirluniau mwyaf garw ac anial yr Alban! Roeddwn bron am marw eisiau troedio allan a diflannu i'r tirlun mynyddig unigryw – ond roedd hynny yn waharddiedig!

Allan ar y platform yr es felly – ac o fewn munudau i gyrraedd y copa dyma weld cwpl mewn oed yn pwyntio'r telesgopau tua'r bryn. Mor llwm yr edrychai'r ahangder o greigiau a grug o'n blaenau...ond wrth graffu – dyna nhw! Pâr o hutanod y mynydd yn turio'r priddoedd tenau yn chwilio am bryfetach – a dyna aderyn arall i mi ei weld am y tro cyntaf! Adar hynod hardd yn eu lliwiau magu, y fron oren yn danbaid. Ond mor bell i ffwrdd oeddynt, byddai wedi bod bron yn amhosib eu canfod gyda sbienddrych yn unig. Tybed ai lwc oedd hi fod y pâr oedrannus wedi dod o hyd iddynt o'n blaenau?! Fyddwn i byth wedu dod o hyd iddynt fel arall?! Ta waeth, roeddwn yn falch o weld yr adar hardd yma yn eu cynefin.



www.wild-scotland.org.uk/

Cafwyd ambell i dro arall yn yr ardal – o amglych loch Morlich (ble gwelwyd pibyddion yn datgan tiriogaethau, tra'n cadw clustiau'n agored am y croesbig a't titw copog (clywais y titwod ond ni lwyddais i'w gweld yn anffodus!)

Wedi rhai dyddiau yn ardal Nethy Bridge, roedd ein bryd ar fynd ymhellach i'r gogledd i wersylla, felly ganol yr wythnos dyma danio'r car eto a throi ei drwyn tua'r gogledd orllewin.

Roedd y ffordd draws gwlad o Inverness i Ullapool yn llydan ac yn wag... fawr ddim traffig ac felly taith braf iawn o un arfordir i'r llall! Aros ennyd yn Ullapool i lenwi'r tanc (does wybod lle fydd y garej nesaf!) a dyna adael y ffordd ddwy-ffordd arferol a gweld ffyrdd bach yr ucheldir am y tro cyntaf – ffyrdd cul gyda mannau pasio bob rhyw hanner can metr.

Golygfeydd godidog yr holl ffordd i fyny i Durness, a'r maes gwersylla mwyaf gogleddol ym Mhrydain does bosib. A dyma i chi le oedd hwn i osod pabell - ar ben clogwyn a thraeth euraidd odditano, gyda hwyaid mwythblu yn nofio ar y môr llonydd; morwenoliaid yn sgrechian a phlymio bob yn ail ac adar drycin y graig yn hwylio heibio ar adenydd sythion. Gyda 'Leri yr artist yn sgetsio'n braf, roeddwn innau yn fy elfen yn edrych allan i'r môr! Dyna

hugannod ...a dyna wylog du! Nefoedd i adarwr yn siwr i chi!


Gwersyll a golygfa!

Cafwyd ychydig ddyddiau yma yn cerdded y mynyddoedd a'r traethau (a llwyddo i weld grugieir coch, cudyll bach a chogau cyn gorfod troi yn ôl tua Nethy Bridge am noson arall yn y bwythyn bach. Dyma'r noson olaf ar yr ochr ddwyreiniol - y bore canlynol roeddem â'n bryd ar ddyffryn Findhorn - cyrchfan i weld yr eryr aur...

Ac felly, dyma ddyffryn llydan Findhorn (enw gaeleg!)... 'dead end' rai milltiroedd i fyny'r cwm, a maes parcio bychan taclus ar lan yr afon, ac unwaith eto pibyddion yn datgan eu tiriogaethau yn aflafar ac yn hedfan yn ôl ac ymlaen i ymlid tresbaswyr. Ar ben pob crib yr oedd cannoedd ar gannoedd o geirw cochion yn pori ar y tyfiant garw, yr hyddod yn sefyll yn wyliadwrus gyda'u cyrn anferth mewn silhouette yn erbyn awyr lwyd y gorwel.

Bum yma am rai oriau, ond fel y diflannodd y coffi yn araf o waelod y fflasg, felly hefyd y diflannodd fy amynedd – ac roedd tipyn o daith o'm blaen eto! Welais i mo'r eryr, ond cystal bob tamaid oedd gweld cudull coch yn hela dros y glaswelltir ar waelod y dyffryn wrth i ni ddychwelyd i warineb (?).

Bod yn glyfar a dewis ambell i ffordd gefn, dros y topiau ac i lawr at ben deheuol Loch Ness gan osgoi'r traffig. Ffordd oedd yn dipyn o hwyl i un sy'n hoff o yrru – a ffordd oedd yn mynd heibio ambell i lyn bychan hefyd. Arafu a chadw lygad ar wyneb y dwr... ar yn wir, ar lyn yn y tir uchel ynghanol nunlle dyma aderyn arall yr oeddwn wedi gobeithio ei weld – y trochydd gyddfddu! Hwn yn aderyn hynod o smart yn ei blu magu – ei wddf (fel yr awgryma ei enw!) yn ddu, ac ochrau'r gwddw hir yn resi du a gwyn, gyda'r pen main ar big hir fel picell yn barod i drywanu pysgod anffodus y llyn. Un o'r adar godidocaf a welais erioed mae'n rhaid dweud.

Yn anffodus traffig oedd y stori o fort Augustus i Fort William, ac i lawr wedyn at Glen Coe – ble roeddwn i dreulio noson olaf yn yr Alban dan gynfas – a chael peint o gwrw *Fraoch* (a fragir o flodau'r grug!) yn un o dafarndai mwyaf unigryw (ac anghysbell!) yr Alban – y Clachaig. Tafarn hynod boblogaidd gyda dringwyr a mynyddwyr yw hon, ac iddi, ac i'r cwm, hanes trychinebus. (Hyd y dydd heddiw gwaherddir unrhyw Campbell rhag rhoi troed dros y rhiniog wedi'r gyflafan a fu!) Daeth y lle ag atgofion yn ôl o wersylla yma rai blynyddoedd yn ôl a deffro yn y bore a phopeth – yn cynnwys y babell – dan chwe modfedd o eira! Ond roedd dipyn mwynach y tro yma diolch byth. Wedi pacio'r babell am y tro olaf a'i gwthio i'r bwt, ei throi hi am Loch Lomond, Glasgow a'r M6 hir yn ôl adre. Dyna wythnos wefreiddiol unwaith eto...a'm gadawodd yn awchu at gael mynd yn fy ôl. Rwy'n siwr y bydd y bagbibau wedi fy hudo yn ôl yno eto cyn bo hir!

# Gweilch 2009

Bu'n dymor difyr yn hanes gweilch y pysgod Cymru eleni:

**Gweilch y Glaslyn** – yn dilyn siom colli nyth 2004 a llwyddiant 2005 – 07 pan fagwyd dau gyw bob blwyddyn a tri chyw yn 2008, da yw cael tri chyw yn hedfan yn llwyddiannus eleni eto. Dyma'r dyddiadau pwysica iddynt yn 2009:


Mawrth $21^{ain}$ – y ceiliog yn dychwelyd, a'r iâr ar yr $22^{ain}$

Ebrill $6^{ed}$, $9^{fed}$, $12^{fed}$ – tri wy ar gyfer y Pasg

Mai $13^{eg}$, $14^{eg}$, $17^{eg}$ – yr wyau'n deor

Mehefin $18^{fed}$ – modrwyo'r cywion: modrwyau gwynion YF, 90 a 91

Gorffennaf $6^{ed}$ – y cyw cynta'n hedfan a'r ddau arall ar yr $8^{fed}$ a'r $11^{fed}$



Gweilch y Glaslyn 2009 newydd gyrraedd
Llun www.northwalesbirding.com

Cafwyd y newyddion da hefyd bod un o gywion y Glaslyn (modrwy ddu, rhif 80, 2006) wedi magu yn yr Alban, ger Loch Ken yn Dumfries a Galloway.

**Gweilch Dyfi** – yn 2007, am fod nifer dda o weilch y pysgod yn pasio drwodd bob gwanwyn am y gogledd, penderfynodd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Maldwyn godi llwyfan nythu iddyn nhw ar eu gwarchodfa ar Gors Ddyfi. Roedd y safle yn amlwg yn apelio oherwydd fe arhosodd pâr o weilch yno drwy'r haf yn 2008, gan adeiladu nyth ar y llwyfan.

Dros y gaeaf 2008 – 09, dan arweiniad Emyr Evans, dyma osod gwifrau trydan yn eu lle, camerâu, cuddfan ar stilts a chanolfan ymwelwyr yn barod am y tymor i ddod. Dyma ddigwyddodd:

Ebrill $10^{fed}$ – yr iâr yn dychwelyd, a'r ceiliog ar y $18^{fed}$

Ebrill $23^{ain}$ – y ceiliog yn diflannu (wedi cael anffawd mae'n debyg), gan adael yr iâr ar ben ei hun.

Mai $28^{ain}$ – ceiliog arall yn ymuno â hi. Y ddau'n ychwanegu at y nyth, ond mae'n rhy hwyr iddynt fagu eleni. Roeddent yn dal yno (ddiwedd Gorffennaf) a'r gobaith bellach yw y bydd y ddau yn dychwelyd yn 2010 i fagu'n llwyddiannus.



Gwalch Dyfi 2009 gyda rheilffirdd arfordir y Cambrian yn y cefndir
Llun www.northwalesbirding.com

**Gweilch Hafren** – pâr o weilch ar lannau'r Hafren nepell o'r Trallwm oedd y cyntaf i nythu yng Nghymru hyd y gwyddwn. Roeddent wedi dechrau nythu a dowdy cyn gweilch y Glaslyn yn 2004 a magwyd un cyw yn llwyddiannus. Ni ddaethont yn eu holau, ond, eleni, mae pâr wedi cymeryd tiriogaeth yn yr ardal a chodi nyth, ond heb fagu. Gobaith mawr felly am 2010.

**Gweilch eraill** – arhosodd sawl aderyn o gwmpas dros yr haf, yn ychwanegol i'r rhai uchod, sy'n gwneud i rywun feddwl eu bod nhw ar fin sefydlu o ddifri yng Nghymru. Hei lwc ynde?

# Gweithgareddau Cymdeithas Ted Breeze Jones

## Hydref - Rhagfyr 2009

Dydd Sadwrn, Hydref 24ain
**Cynhadledd Flynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Cymdeithas Ted Breeze Jones**
Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, i gychwyn am 10.30am
(bydd angen enwau ar gyfer cinio – mwy o wybodaeth i ddod yn y post!)

Nos Fercher, Tachwedd 4ydd
**Noson Gymdeithasol**
Plas Tan y Bwlch, 7.30yh

Dydd Sadwrn, Tachwedd 14eg
**Taith: Morfa Nefyn a Phorthdinllaen, dan arweiniad Rhodri Dafydd**
Cyfarfod 10.30am: Maes Parcio Morfa Nefyn SH281407

Dydd Sadwrn, Tachwedd 28ain
**Taith: Aberhirnant / Llandderfel / Mynydd Mynyllod dan arweiniad Dafydd Roberts**
Cyfarfod 10.30am: Maes Parcio o flaen yr Eglwys, Llandderfel SH981370

Nos Iau, Rhagfyr 10fed
**Sgwrs a mins peis yng nghwmni Iolo Williams**
Plas Tan y Bwlch, 7.30y.h.

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 12fed
**Taith: Adar Porthmadog a Borth y Gest, dan arweiniad Twm Elias**
Cyfarfod ger Recordiau'r Cob, Porthmadog am 10.30yb

**Atlas Adar y BTO, 2007 - 2011**
Byddwn yn parhau i gofnodi yr adar a welwn ar ein teithiau ar gyfer Atlas Adar y BTO. Ond daliwch ch'ithau i yrru eich cofnodion ar hap i mewn, gan gofio am yr adar cyffredin yn ogystal â'r rhai prin lle bynnag y bôch - yn yr ardd, yn siopa yn Port neu wrth fynd a'r ci am dro.


*Plas Tan y Bwlch*

*Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri*

Pob llwyddiant i

**Gymdeithas Ted Breeze Jones**

ac i

**LLYGAD BARCUD**

Holwch am raglen o'r cyrsiau byd natur yr ydym yn eu cynnig,
neu am ein darpariaeth i grwpiau / cymdeithasau ymweld gyda'r nos am bryd bwyd,
a thro rownd y gerddi

Am ragor o wybodaeth a rhaglen lawn ffoniwch: 01766 772600